


**Hawdd ei Ddeall**

 **Archwilio Cymru**  
**Audit Wales**

# **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2026–2030**

**Ebrill 2026**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall  
o 'r crynodeb o: **Cynllun  
Cydraddoldeb Strategol  
2026-2030**

Efallai y byddwch chi angen help  
i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun  
rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**,  
mae hyn yn meddwl **Archwilio  
Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth,  
cysylltwch â:

**Gwefan:** [www.audit.wales/cy](http://www.audit.wales/cy)

# Cynnwys

Ar gyfer pwy mae hwn .....	4
Beth yw'r cynllun hwn.....	5
Beth mae cydraddoldeb yn ei olygu .....	6
Deddfau y mae'n rhaid i ni eu dilyn .....	7
Ein pum nod cydraddoldeb cyffredinol.....	8
Ein tri amcan cydraddoldeb newydd .....	10
Amcan 1: Gwell gwybodaeth am amrywiaeth.....	11
Amcan 2: Recriwtio ac allgymorth wedi'i deilwra .....	12
Amcan 3: Defnyddio AI yn ofalus .....	13
Sut y byddwn yn gwirio cynnydd.....	14
Neges derfynol.....	15

# Ar gyfer pwy mae hwn

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pawb.



Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl sydd eisiau gwybodaeth glir a syml.

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl ag anableddau dysgu neu anawsterau darllen.

Mae'n esbonio sut y bydd Archwilio Cymru yn deg ac yn gynhwysol.

# Beth yw'r cynllun hwn

Yn Archwilio Cymru, rydym yn edrych ar sut mae arian cyhoeddus Cymru yn cael ei wario.



Rydym yn dangos sut mae arian yn cael ei ddefnyddio i helpu pobl.

Rydym yn argymhell sut y gellir gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r cynllun cydraddoldeb hwn yn cwmpasu'r blynyddoedd 2026 i 2030.



Mae'n esbonio beth fydd Archwilio Cymru yn ei wneud i drin pobl yn deg.

Mae'n esbonio beth fydd Archwilio Cymru yn ei wneud i wella cydraddoldeb.

# Beth mae cydraddoldeb yn ei olygu

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg a gyda pharch.



Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai pobl.

Mae hyn yn helpu i roi'r un cyfleoedd a chyfleoedd i bawb.

# Deddfau y mae'n rhaid i ni eu dilyn

Rhaid i ni ddilyn Deddf Cydraddoldeb 2010.



Mae'r gyfraith hon yn nodi rheolau clir ar gyfer sefydliadau cyhoeddus fel Archwilio Cymru.

Mae'n amddiffyn pobl rhag triniaeth annheg oherwydd pwy ydyn nhw.

Mae'n cwmpasu pethau fel oedran, anabledd, hil, rhyw, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol.

# Ein pum nod cydraddoldeb cyffredinol

Yn Archwilio Cymru, mae gennym bum nod cyffredinol ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb:



Nod 1: Byddwn yn edrych ar gydraddoldeb trwy ein gwaith archwilio.



Nod 2: Byddwn yn gwneud ein gwybodaeth yn glir ac yn hygyrch.



Nod 3: Byddwn yn meddwl am gydraddoldeb pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau.



Nod 4: Byddwn yn sicrhau ein bod yn denu pobl o bob cefndir ac yn cael gweithlu amrywiol.



Nod 5: Byddwn yn cefnogi diwylliant gweithle parchus a chynhwysol.

# Ein tri amcan cydraddoldeb newydd

Am y pedair blynedd nesaf, rydym hefyd yn canolbwyntio ar dri amcan cydraddoldeb newydd

1

**Amcan 1:** Byddwn yn casglu gwell gwybodaeth am amrywiaeth gan staff ac ymgeiswyr am swyddi.

2

**Amcan 2:** Byddwn yn teilwra ein gwaith allgymorth a recriwtio i gynyddu cynrychiolaeth.

3

**Amcan 3:** Byddwn yn meddwl yn ofalus am gydraddoldeb pan fyddwn yn edrych ar ddefnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial (AI).

# Amcan 1: Gwell gwybodaeth am amrywiaeth

Byddwn yn gwella ein cwestiynau amrywiaeth ar gyfer staff ac ymgeiswyr am swyddi.



Byddwn yn dechrau casglu gwybodaeth am gefndir economaidd-gymdeithasol.

Byddwn yn gwneud dadansoddiad gwell o'r data i'n helpu i wneud penderfyniadau gwell.

## Amcan 2: Recriwtio ac allgymorth wedi'i deilwra

Byddwn yn adolygu ein dull recriwtio i wneud yn siŵr ei fod yn deg.



Byddwn yn cyrraedd mwy o bobl o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Rydym yn arbennig eisiau recriwtio mwy o bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, siaradwyr Cymraeg a phobl ag anableddau.

# Amcan 3: Defnyddio AI yn ofalus

Byddwn yn parhau i edrych ar ddefnyddio offer AI i'n helpu gyda'n gwaith.



Byddwn yn gofyn am gyngor cyfreithiol allanol.

Byddwn yn datblygu canllawiau a rheolau ar gyfer ein staff.

Byddwn yn gwirio'n ofalus am ragfarn ac effeithiau annheg eraill.

# Sut y byddwn yn gwirio cynnydd



Byddwn yn gwirio ein cynnydd bob tri mis.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol.

Byddwn yn gwrando ar adborth ac yn gwella.

# Neges derfynol

Mae cydraddoldeb yn bwysig iawn i Archwilio Cymru.



Byddwn yn parhau i ddysgu a gwella.